Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA(L)ARD/0549/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddPPIA@cynulliad.cymru

cc Simon Thomas AC
Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid

cc Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

SeneddCyllid@cynulliad.cymru
SeneddMCD@cynulliad.cymru

Y Cynulliad Cenedlaethol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Medi 2017

Annwyl Lynne,

Parthed fy llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf 2017, mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei adroddiad cam 1 am Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ('y Bil'), fe wnes i ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar weithredu'r rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Byddaf yn gwneud hyn drwy anfon diweddariadau bob chwarter, a'r llythyr hwn yw'r cyntaf ohonynt.

Mae'r rhaglen yn cynnwys pum elfen:

Canllawiau statudol a deddfwriaethol

Elfen gynta'r rhaglen yw'r canllawiau statudol a deddfwriaethol, sy'n cynnwys y Bil, memorandwm esboniadol, rheoliadau a'r Cod ADY a fydd yn cynnwys gofynion gorfodol. Byddaf yn anfon llythyr pellach gyda'r asesiad effaith rheoleiddiol diwygiedig atoch ar 11 Medi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf hefyd diweddaru'r pwyllgor ar fy ystyriaeth o argymhelliad 17 o adroddiad cam 1 y pwyllgor, sy'n dweud: "Dylai'r Gweinidog roi esboniad pellach ynglŷn â pham mae ysgolion arbennig wedi'u tynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y byddai'r ddyletswydd i ddynodi Cydlynydd ADY ar eu cyfer yn berthnasol iddynt."

Gofynnais i'm swyddogion ysgrifennu at ysgolion arbennig er mwyn cael eu barn ynglŷn ag a ddylid rhoi gofyniad arnynt i fod â Chydlynydd ADY. O'r 39 o ysgolion a holwyd am ymateb cyn gwyliau'r haf, atebodd 15; 10 yn nodi na fyddent o blaid dyletswydd statudol i benodi Cydlynydd ADY.

Roedd wyth o'r 10 a wrthwynebodd ddyletswydd yn glir o'r farn bod pob athro mewn ysgol arbennig yn ysgwyddo rôl Cydlynydd ADY, a bod penaethiaid a chydweithwyr eraill yr uwch dîm arwain yn cyflawni dyletswyddau penodol eraill. Mae hyn yn cyd-fynd â barn Llywodraeth Cymru fel yr adleisiwyd yn narpariaethau'r Bil ac a esboniwyd yn fy ymateb i argymhelliad y pwyllgor. Codwyd materion penodol gan ddau o'r pum pennaeth a oedd o blaid dyletswydd statudol ynghylch hyfforddiant, cyllido, cydweithio, datblygiad staff cyffredinol a chyfleoedd datblygu i athrawon â gwybodaeth arbenigol o ADY. Cafwyd sylw tebyg gan bedwar o'r 10 pennaeth a oedd yn gwrthwynebu Cydlynwyr ADY statudol.

Mae pryder ymhlith rhai ysgolion arbennig, sef os nad oes ganddynt Gydlynwyr ADY dynodedig y gallent felly golli allan ar rywfaint o'r cyllid, hyfforddiant a'r mentrau cydweithio a ddaw law yn llaw â chyflwyno'r rôl hon mewn ysgolion prif ffrwd. Er bod y rhain yn faterion pwysig, credwn fod modd mynd i'r afael â nhw fel rhan o'r rhaglen trawsnewid ehangach, ac rydym o'r farn na ddylai gofyniad y Bil ar leoliadau addysg i ddynodi Cydlynwyr ADY ymestyn i gynnwys ysgolion arbennig. Byddwn yn parhau â'n trafodaethau ag ysgolion arbennig wrth fwrw ymlaen â'r rhaglen.

Cymorth gweithredu / trawsnewid

Ym mis Mawrth 2016, sefydlwyd Grŵp Gweithredu Strategol ADY gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r trefniadau ar ddatblygu cynlluniau gweithredu parhaus er mwyn cefnogi awdurdodau lleol, ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar, sefydliadau addysg bellach, byrddau iechyd lleol ac eraill i baratoi ar gyfer rhaglen trawsnewid ADY gan gynnwys y newidiadau statudol sydd yn y Bil. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis i drin a thrafod atebion ymarferol ac yn darparu cyngor ac argymhellion i Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i roi popeth ar waith.

Mae'r Grŵp Gweithredu hwn wedi sefydlu grwpiau arbenigol er mwyn rhoi ystyriaeth fanwl i nifer o faterion technegol wrth roi'r system ADY newydd ar waith, gan gynnwys:

- Cynlluniau datblygu unigol
- Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY)
- Darpariaeth ADY y blynyddoedd cynnar
- Darpariaeth ADY ôl-16
- Pontio rhwng lleoliadau, darparwyr ac i fyd oedolion
- Iechyd
- Hyfforddiant
- Plant sy'n derbyn gofal

Daeth yr holl grwpiau arbenigol at ei gilydd mewn gweithdy deuddydd fis Mawrth 2017, ac maen nhw wedi gweithio tuag at gyfres o gamau gweithredu cytûn ers hynny.

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddais gronfa arloesi ADY gwerth £2.1 miliwn hyd at 31 Mawrth 2018. Nod y grant hwn yw cefnogi prosiectau partneriaeth rhanbarthol sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY. Nod y grant yw helpu i ddatblygu dulliau ac arferion cyflawni creadigol a chydweithredol er mwyn gwella systemau, trefniadau a pherthnasau. Hefyd, mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i gefnogi sefydliadau addysg bellach a byrddau iechyd lleol. Mae prosiectau a sefydlwyd yn y flwyddyn gyntaf wrthi'n cael eu datblygu, a bydd grŵp arbenigol perthnasol yn adolygu'r canlyniadau.

Ym mis Chwefror 2017, lansiais ymgynghoriad am sut y dylid rhoi'r Bil ar waith pe bai'n derbyn Cydsyniad Brenhinol. Daeth i ben ar 9 Mehefin ac mae fy swyddogion wrthi'n ystyried yr ymatebion ar hyn o bryd. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi'r tymor hwn, ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad am ein dull gweithredu arfaethedig. Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi arweiniad ar y pontio gyda chanllawiau manwl i bartneriaid cyflawni i gefnogi'r broses weithredu.

Ysgrifennais atoch ym mis Gorffennaf am greu pum arweinydd trawsnewid ADY a fydd yn helpu partneriaid cyflawni i baratoi at weithredu'r drefn newydd. Mae'r broses recriwtio ar waith nawr, a dylai'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn eu lle cyn diwedd y flwyddyn. Bydd y swyddi hyn yn gwneud cyfraniad allweddol tuag at weithredu cynlluniau a chyflwyno hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o'r Bil fesul tipyn fel rhan o'n datblygiad sgiliau craidd (gweler isod).

Mae'r gwaith o fonitro a gwerthuso proses weithredu'r Bil wedi dechrau, ar gamau allweddol o'r broses weithredu yn barod ar gyfer y system newydd; cydymffurfio â darpariaethau'r Bil unwaith y daw'r system i rym; a monitro effaith y Bil dros y tymor hir. Mae Arad Research a Phrifysgol De Cymru wedi cael contract i gynnal asesiad llinell sylfaen o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) gyfredol, a fydd yn llywio gwerthusiad o effaith y newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol. Ar ben hynny, mae fy swyddogion wedi bod yn cysylltu ag Estyn er mwyn cydlynu ffordd o fonitro parodrwydd i weithredu; bydd Estyn yn canolbwyntio peth o'i waith arolygu thematig eleni ar barodrwydd sefydliadau addysg i'r system ADY newydd. Bydd arweinwyr trawsnewid ADY yn helpu partneriaid cyflawni i gynnal hunanasesiadau o barodrwydd er mwyn nodi pa feysydd i ganolbwyntio arnynt wrth baratoi i drawsnewid i'r system ADY newydd.

Datblygu'r gweithlu

Rhaglen datblygu sgiliau ar gyfer ymarferwyr sy'n helpu dysgwyr ag ADY yw'r elfen hon, ac mae'n canolbwyntio ar dair lefel: datblygu sgiliau craidd; datblygu sgiliau uwch; a datblygu sgiliau arbenigol. Mae'r dull hwn o weithredu'r agwedd hon ar y rhaglen yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r grŵp hyfforddiant arbenigol a'r grŵp arbenigol Cydlynwyr ADY.

Bydd datblygiad sgiliau craidd yn darparu adnoddau hyfforddi a datblygu a chyfleoedd i bob ymarferydd wella ei sgiliau, ei wybodaeth a'i hyder er mwyn cefnogi dysgwyr ag amrywiaeth eang o anghenion dysgu ychwanegol cyffredin iawn ond llai cymhleth o fewn lleoliadau a chael mynediad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r dasg o ddatblygu sgiliau craidd eisoes wedi cychwyn gyda'r rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth, a ddatblygwyd gan y tîm Anhwylder Sbectrwm Awtistig Cenedlaethol a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnig adnoddau am ddim i ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth a hyfforddiant i athrawon a staff cymorth. Mae'r rhaglen, sydd ar gael ar wefan ASD Info Wales, ar gael i ysgolion cynradd ac wedi'i chwblhau gan dros 4,000 o staff a 10,000 o ddisgyblion. Mae'r rhaglen yn cael ei hymestyn i ysgolion uwchradd, y blynyddoedd cynnar, addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

Bydd datblygu sgiliau uwch yn cefnogi rôl Cydlynwyr ADY, a fydd yn cymryd lle'r Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig cyfredol.

Mewn perthynas ag argymhelliad 14 o adroddiad cam 1 y pwyllgor - "Dylai'r Gweinidog ailystyried ei ymagwedd tuag at gymwysterau ar gyfer Cydlynwyr ADY, a'i gwneud hi'n glir wrth symud ymlaen, y dylai cymhwyster Meistr fod yn ddymunol yn hytrach nag yn ofynnol" ac argymhelliad 15 – "Dylai'r Gweinidog ystyried a fyddai'n ddymunol ystyried bod cymwysterau a setiau sgiliau eraill, ar lefel debyg i gymhwyster Meistr, yn briodol ar gyfer Cydlynydd ADY" - mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r arbenigwyr er mwyn nodi gofynion sgiliau a hyfforddiant y proffesiwn.

Mae datblygu sgiliau arbenigol yn cynnwys staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol, er enghraifft, seicolegwyr addysg ac athrawon plant â nam ar eu golwg neu'r clyw. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Uned Ddata er mwyn casglu data gan awdurdodau lleol am eu gweithlu cyfredol (gan gynnwys cymwysterau, demograffeg, sgiliau ieithyddol ac ati) ynghyd â swyddi gwag cyfredol a rhai a ragwelir. Unwaith mae'r canlyniadau ar gael, byddaf yn eu defnyddio i ystyried ein cymorth tuag at hyfforddiant arbenigol i ôl-raddedigion.

Codi ymwybyddiaeth

Ym mis Chwefror a mis Mawrth eleni, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol a fynychwyd gan dros 800 o ymarferwyr a rhieni. Mynychais un o'r digwyddiadau hyn yng Nghasnewydd, ac roeddwn i'n hapus iawn gyda'r niferoedd oedd yn bresennol a'r adborth cadarnhaol i'r sesiwn.

Mae ein gwaith helaeth â rhanddeiliaid yn parhau, ac rydym yn cynllunio rhaglen o weithgareddau i esbonio a hyrwyddo'r system newydd a'r hawliau i blant, eu rhieni a phobl ifanc.

Polisi ategol

Pwyslais yr elfen hon o'r rhaglen yw cynhyrchu polisi a chanllawiau er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu cefnogi a'u gwreiddio yn y system AAA gyfredol a system ADY y dyfodol.

Eleni, er mwyn cefnogi ymarferwyr, rydym wedi cyhoeddi: canllawiau ar gyllid ôl-16 i ddysgwyr ag anawsterau dysgu mewn colegau arbenigol; cyngor i awdurdodau lleol a gweithwyr addysg proffesiynol ynghylch rôl Cydlynwyr AAA; arweiniad i ymarferwyr addysgu i helpu dysgwyr ag anawsterau dysgu penodol a chanllawiau i gyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol ar gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

Er mwyn helpu i gynllunio a chyflwyno ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol i helpu plant a phobl ifanc gyda ADHD, ASD, nam ar y clyw, nam gweledol a namau amlsynhwyraidd, rydym wedi dyfarnu contractau i Bazian, SQW a Phrifysgol Birmingham er mwyn cynnal asesiadau tystiolaeth cyflym a fydd yn llywio canllawiau hygyrch ar ymyriadau y gwyddys eu bod yn effeithiol i gefnogi pobl ifanc â mathau penodol o AAA.

Byddaf yn rhoi diweddariad pellach ar waith y rhaglen trawsnewid ddiwedd Tachwedd.

Rwy’n anfon copïau o’r llythyr hwn at gadeiryddion y pwyllgorau Cyllid a Materion Cyfansoddiadol a Chyfreithiol.

Yn gywir



Alun Davies AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language